# Memorandwm Dealltwriaeth Arolygwyr Cymheiriaid ar gyfer pob ysgol ac uned cyfeirio disgyblion (UCD)

## Medi 2024

## Rheoli Fersiwn

| Dogfen fersiwn | Awdur | Dyddiad cyhoeddi | Newidiadau a wnaed |
|---|---|---|---|
| 1.0 | Hannah Roderick | Medi 2018 | Gwreiddiol |
| 1.1 | Hannah Roderick | Ionawr 2019 | Diwygio gradd arolygiad prawf, gwybodaeth bersonol a theithio a chynhaliaeth. |
| 1.2 | Hannah Roderick | Mehefin 2019 | Diwygio i'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth. |
| 1.3 | Claire Ait-Hammi | Gorffennaf 2019 | Diwygio i'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth. |
| 1.4 | Claire Ait-Hammi | Rhagfyr 2019 | Cadarnhau'r ddarpariaeth gyflenwi ar gyfer arolygwyr tîm ADY undydd. |
| 1.5 | Dyfrig Ellis | Awst 2021 | Diwygiadau i:<br>• Eglurder ynghylch gofynion a disgwyliadau hyfforddiant cychwynnol / diweddaru a dysgu proffesiynol<br>• meddylfryd arolygu<br>• tôn llais |
| 1.6 | Dyfrig Ellis | Ebrill 2024 | Diweddarwyd i gynnwys:<br>• Fframwaith Arolygu 2024<br>• Rheoliadau a Safonau newydd Ysgolion Annibynnol (Cymru) |

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|

**Cyflwyniad** **1**

Diben y memorandwm dealltwriaeth 1

I bwy mae'r memorandwm dealltwriaeth yn berthnasol? **1**

**A Cyfrifoldebau'r cyflogwr:** **2**

Dewis a recriwtio 2
Hyfforddiant 3
Defnyddio 3
Iechyd a diogelwch 3
Indemniad 4

**B Cyfrifoldebau Estyn:** **4**

Dewis a recriwtio 4
Hyfforddiant 4
Defnyddio 5
Gwerthuso 5
Iechyd a diogelwch 5
Treuliau 6
Ariannu rhyddhau athrawon 6
Gwrthdaro buddiannau 6

**C Cyfrifoldebau arolygwyr cymheiriaid:** **7**

Hyfforddiant 7
Defnyddio 8
Gwerthuso 8
Iechyd a diogelwch 8
Rôl arolygwyr cymheiriaid 9
Gofynion meddalwedd yr YAR 9
Diogelu 9
Disgwyliadau o ran arolygwyr 10
Gwrthdaro buddiannau 10

**Atodiad A**: Cymhwyster ar gyfer rôl arolygydd cymheiriaid **11**

**Atodiad B**: Protocol ac arweiniad ar gyfer arolygwyr cymheiriaid **13**

**Atodiad C**: Iechyd a diogelwch y tîm arolygu **17**

## Cyflwyniad

### Diben y memorandwm dealltwriaeth

1 Mae'r ddogfen hon yn egluro rolau, cyfrifoldebau a disgwyliadau'r tri pharti (arolygydd cymheiriaid, cyflogwr ac Estyn) o ran ymglymiad arolygwyr cymheiriaid mewn hyfforddiant cychwynnol a hyfforddiant diweddaru, yn ogystal â gweithgareddau arolygu.

2 Bydd arolygwyr cymheiriaid sy'n cwblhau eu hyfforddiant a'u hasesiad cychwynnol yn llwyddiannus yn cael eu rhoi ar restr a fydd yn cynnwys gwybodaeth gan gynnwys cyfeiriadau e-bost, enwau, cyfeiriadau, manylion am gyflogwr presennol ac arbenigeddau. Mae'n hanfodol bod arolygwyr cymheiriaid yn rhoi gwybod i Estyn am unrhyw newidiadau i'w manylion cyswllt neu statws cyflogaeth. Gallant wneud hyn trwy system ar-lein Estyn ar gyfer proffiliau arolygwyr. Os yw'r arolygydd cymheiriaid yn newid cyflogaeth, rhaid iddo ddiweddaru ei broffil gyda gwybodaeth am ei sefydliad newydd, a hefyd diweddaru ei hepgoriadau. Rhaid i'r arolygydd cymheiriaid lenwi Ffurflen Cymeradwyaeth Cyflogwr newydd ac anfon hon yn ôl i Estyn. Rhaid i arolygwyr cymheiriaid barhau i gael eu cyflogi ar y raddfa gyflog uwch arweinyddiaeth er mwyn bod yn gymwys i barhau i gael eu defnyddio yn ystod arolygiadau. Os nad ydynt mewn rôl uwch arweinyddiaeth mwyach, rhaid iddynt roi gwybod i dîm cynllunio Estyn cyn gynted ag y bo modd.

3 Bydd Estyn yn defnyddio'r wybodaeth yn y rhestr dim ond i ddefnyddio arolygwyr cymheiriaid a rhannu gwybodaeth ag arolygwyr cymheiriaid ynghylch datblygiadau arolygu a chyfleoedd ar gyfer dysgu proffesiynol. Bydd arolygwyr cofnodol a allai fod yn arwain arolygiad craidd yn gallu gweld y wybodaeth a ddelir ar eu Proffil Arolygydd personol at ddibenion arolygu yn unig.

4 Mae'r partïon yn cydnabod dyletswydd Estyn i gydymffurfio â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (y Ddeddf) ac mae'n deall y gallai fod angen i Estyn ddatgelu gwybodaeth benodol i drydydd parti. Bydd y cyflogwr ac arolygwyr cymheiriaid yn cynorthwyo Estyn i gydymffurfio â'r Ddeddf.

5 Mae'r partïon yn cydnabod bod arolygwyr cymheiriaid yn parhau i fod yn gyflogeion eu cyflogwyr priodol ac na chânt eu hystyried yn gyflogeion Estyn. Rhaid i arolygwyr cymheiriaid beidio â chyflwyno eu hunain fel petaent yn arolygwyr, yn gyflogeion, yn asiantau Estyn nac yn llefarydd ar ei ran.

## I bwy y mae'r Memorandwm Dealltwriaeth hwn yn berthnasol?

### Partïon

6 Mae'r memorandwm dealltwriaeth hwn yn berthnasol i'r cytundeb rhwng Estyn, y cyflogwr a'r arolygydd cymheiriaid.

7 Yn y telerau ac amodau hyn, ystyr ‘arolygydd cymheiriaid’ yw’r unigolyn sydd wedi gwneud cais am y rôl benodol hon, ac ystyr ‘cyflogwr’ yw’r sefydliad neu’r ysgol / UCD a gwblhaodd y datganiad ategol/ffurflen cymeradwyaeth cyflogwr i gefnogi’r cais.

8 Mae’r Memorandwm Dealltwriaeth yn dechrau pan gaiff unigolyn ei ddewis i’w hyfforddi’n arolygydd cymheiriaid a bydd yn parhau oni bai bod un o’r partïon yn ei ganslo os bydd yr arolygydd cymheiriaid yn newid cyflogwr. Os bydd arolygwyr cymheiriaid yn newid cyflogwr, bydd angen iddynt lunio cytundeb newydd gyda’u cyflogwr newydd ac Estyn.

9 Os bydd arolygydd cymheiriaid yn cael ei benodi’n Aelod o’r Senedd neu’n Aelod Seneddol, ni fydd yr arolygydd cymheiriaid yn gallu parhau i gael ei ddefnyddio mewn arolygiad a bydd ei enw’n cael ei dynnu oddi ar y rhestr.

10 Gall unrhyw un o’r partïon derfynu’r cytundeb hwn trwy roi hysbysiad ysgrifenedig i’r ddau barti arall o leiaf 30 diwrnod cyn y dyddiad terfynu.

11 Pan ddaw’r cytundeb i ben, bydd enw’r arolygydd cymheiriaid yn cael ei dynnu o restr Estyn o arolygwyr cymheiriaid cymeradwy.

## A Cyfrifoldebau’r cyflogwr

**Mae’r cyflogwr yn cytuno i’r canlynol:**

### Dewis a recriwtio

12 Rhaid i ddarpar arolygwyr cymheiriaid wneud cais i Estyn, gyda chefnogaeth gan eu cyflogwr neu’u hysgol neu’u UCD (nid oes angen cymeradwyaeth ar gyfer ysgolion annibynnol). Rhaid i’r cyflogwr ardystio bod yr ymgeisydd yn athro effeithiol a phrofedig, a bod ganddo’r profiad perthnasol (amlinellir yn Atodiad A). Trwy gytuno i aelod staff gael hyfforddiant ac asesiad cychwynnol ar gyfer bod yn arolygydd cymheiriaid, bydd yr ysgol neu’r UCD yn ymrwymo i ryddhau’r unigolyn ar gyfer hyfforddiant, paratoi a defnyddio, yn unol â’r cytundeb hwn.

13 Rhaid bod pob arolygydd cymheiriaid sy’n cymryd rhan mewn hyfforddiant a gweithgarwch arolygu wedi cael cliriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, trwy ei gyflogwr, o fewn y tair blynedd diwethaf. Mae hyn yn golygu bod disgwyl i bob arolygydd cymheiriaid adnewyddu ei gliriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd bob tair blynedd er mwyn parhau â’i statws arolygydd cymheiriaid. Gallai Estyn wirio hyn ar unrhyw adeg. Os yw arolygwyr cymheiriaid yn rhan o’r gwasanaeth diweddaru, rhaid iddynt roi caniatâd ysgrifenedig i Estyn allu cael mynediad at eu tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd bob tair blynedd i gynnal eu statws. Rhaid i gyflogwyr ac awdurdodau cyhoeddi hysbysu Estyn am unrhyw bryderon ynghylch addasrwydd arolygydd i gymryd rhan mewn gweithgarwch arolygu. Dylai arolygwyr cymheiriaid

gysylltu â'u cyflogwr os nad ydynt yn siŵr am ddyddiad neu addasrwydd eu cliriad blaenorol.

**Hyfforddiant**

14 Bydd y cyflogwr yn rhyddhau darpar arolygwyr cymheiriaid i'w galluogi i gymryd rhan yn y rhaglen hyfforddiant asesedig, a fydd yn cynnwys:

a) Cyfarfod gweithgarwch cyn-cwrs; gall hwn fod yn weithgaredd ar-lein neu'n weithgaredd wyneb yn wyneb
b) Darllen a thasgau cyn-cwrs
c) Modiwlau hyfforddiant ac asesiadau (fel arfer dros gyfnod o 2 ddiwrnod); gall hwn fod yn weithgaredd ar-lein neu'n weithgaredd wyneb yn wyneb
ch) Arolygiad(au) prawf

15 Rhaid i'r ymgeisydd gwblhau pob rhan o'r hyfforddiant yn llwyddiannus i gymhwyso'n arolygydd cymheiriaid.

16 Trwy gefnogi cais ei aelod staff am hyfforddiant arolygwyr cymheiriaid, mae'n rhaid i'r cyflogwr gytuno i ryddhau'r aelod staff ar gyfer hyfforddiant diweddaru blynyddol. Disgwyliad Estyn yw y bydd arolygwyr cymheiriaid yn mynychu hyfforddiant diweddaru blynyddol. Bydd arolygwyr cymheiriaid sy'n methu'r hyfforddiant hwn am ddwy flynedd yn olynol yn cael eu henwau wedi'u tynnu oddi ar ein rhestr o arolygwyr. I gael eu hailystyried ar gyfer eu defnyddio, rhaid iddynt gwblhau'r hyfforddiant cychwynnol i arolygwyr cymheiriaid, eto. Ar ddechrau cylch arolygu newydd, mae mynychu hyfforddiant diweddaru yn orfodol cyn i arolygwyr cymheiriaid gael eu defnyddio mewn ysgolion. Bydd peidio â mynychu hyfforddiant diweddaru gorfodol ar ddechrau cylch arolygu newydd hefyd yn arwain at dynnu enwau arolygwyr cymheiriaid oddi ar ein rhestr o arolygwyr.

**Defnyddio**

17 Dylai'r cyflogwr weithio mewn partneriaeth ag Estyn i alluogi staff i gymryd rhan mewn hyfforddiant diweddaru a gweithgareddau arolygu. O dan amgylchiadau eithriadol yn unig, fel secondiad i'r awdurdod lleol/consortiwm rhanbarthol, y bydd yn gwrthod rhyddhau staff neu'n tynnu staff yn ôl o ddyletswyddau arolygu ar fyr rybudd.

**Iechyd a diogelwch**

18 Bydd y cyflogwr yn sicrhau bod ei arolygwyr cymheiriaid enwebedig o gymeriad da a'u bod wedi dangos eu gallu i weithio'n ddiogel. Maent yn cynnal rhwymedigaeth gyfreithiol i sicrhau diogelwch arolygwyr cymheiriaid, hyd yn oed yn ystod ymweliadau ag ysgolion / UCDau eraill neu raglenni hyfforddi.

**Indemniad**

19 Mae'r cyflogwr yn cytuno i warchod a diogelu Estyn, y Goron a/neu ei Gweinidogion rhag unrhyw:

(a) gostau ac iawndal, gan gynnwys colledion economaidd ac anuniongyrchol, ac atebolrwyddau eraill y mae unrhyw un ohonynt yn mynd iddynt; a/neu

(b) hawliadau neu weithrediadau cyfreithiol y mae trydydd parti yn eu dwyn yn erbyn unrhyw un ohonynt; a/neu

(c) hawliadau neu weithrediadau cyfreithiol a ddygir yn erbyn unrhyw un ohonynt gan arolygydd cymheiriaid, neu ar ei ran, os achoswyd y golled neu'r niwed gan esgeulustod yr unigolyn hwnnw. Mae'r cyfrifoldebau hyn yn deillio o gyfranogiad yr arolygydd cymheiriaid yn y rhaglen.

## Cyfrifoldebau Estyn

**Mae Estyn yn cytuno i'r canlynol:**

**Dewis a recriwtio**

20 Bydd hysbysebion yn gwahodd ceisiadau i hyfforddi'n arolygydd cymheiriaid yn cael eu rhoi ar wefan Estyn. Hefyd, gallai Estyn gysylltu ag ysgolion / UCDau a gwahodd ceisiadau am hyfforddiant gan ddarpar arolygwyr cymheiriaid. Bydd Estyn yn ystyried yr holl geisiadau ac yn gwahodd ymgeiswyr addas i gael hyfforddiant. Byddant yn cael eu nodi ar sail y meini prawf a amlinellir yn **Atodiad A**. Yn ogystal, bydd unrhyw ymarferwr presennol sydd wedi'i ailhyfforddi'n arolygydd ychwanegol neu'n Arolygydd Cofnodol gan Estyn ar gyfer cylch arolygu 2024-2030 yn gymwys i fod yn arolygydd cymheiriaid, a bydd yn ofynnol iddo fynychu'r holl ddigwyddiadau hyfforddiant diweddaru a throsi blynyddol.

**Hyfforddiant**

21 Bydd Estyn yn darparu rhaglen hyfforddi ac asesu ar gyfer darpar arolygwyr cymheiriaid. Dim ond y rhai sy'n bodloni disgwyliadau Estyn o arolygwyr ac yn cwblhau'r asesiad yn llwyddiannus fydd yn cael eu penodi'n arolygwyr cymheiriaid. I sicrhau cymhwysedd parhaus ar gyfer diweddariadau hyfforddiant, rhaid i arolygwyr cymheiriaid feddu ar dystysgrif ddilys y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, wedi'i chyflwyno o fewn tair blynedd cyn y digwyddiad.

**Defnyddio**

22 Bydd arolygwyr cymheiriaid yn cael eu defnyddio am uchafswm o:

- 3 - 3.5 diwrnod ar gyfer arolygiad ysgol gynradd, ysgol arbennig neu UCD unigol
- 4 - 4.5 diwrnod ar gyfer arolygiad ysgol ffederal neu ysgol bob oed
- yn nodweddiadol, dim mwy na thri arolygiad fesul blwyddyn academaidd

Bydd angen cytundeb cyflogwr ar wahân ar gyfer achosion ychwanegol o ddefnyddio y tu hwnt i dri arolygiad, a bydd modd ei gael trwy neges e-bost gan y cyflogwr.

23 Mae Estyn yn annog arolygwyr cymheiriaid i fanteisio ar gyfleoedd i ymgymryd â gweithgarwch arolygu. Byddant fel arfer yn cael tymor o rybudd ar gyfer cymryd rhan mewn arolygiadau craidd, ymweliadau dilynol neu arolygon thematig.

24 Bydd arolygwyr cymheiriaid sy’n gwrthod tri gwahoddiad yn olynol fel arfer yn cael eu henwau wedi’u tynnu oddi ar y rhestr o Arolygwyr Cymheiriaid. I gael eu hailystyried ar gyfer eu defnyddio, rhaid iddynt gwblhau’r hyfforddiant cychwynnol eto.

25 Y Cydlynydd Arolygu (CydAr) yw’r prif bwynt cyswllt cyn arolygiadau, tra bydd yr Arolygydd Cofnodol yn cyfathrebu ag arolygwyr cymheiriaid yn ystod arolygiadau ac yn syth ar ôl arolygiadau.

**Gwerthuso**

26 Ar ddiwedd pob arolygiad, bydd yr Arolygydd Cofnodol yn asesu perfformiad pob aelod o’r tîm arolygu sydd dan gontract, gan gynnwys yr arolygydd cymheiriaid. Bydd arolygwyr cymheiriaid yn cael eu gwerthuso ar sail y polisi sicrhau ansawdd ac arweiniad ar wefan Estyn.

27 Os bydd gwaith arolygydd cymheiriaid yn dangos diffygion sylweddol, bydd yn cael ei gynorthwyo yn y lle cyntaf gan Estyn trwy gyfleoedd dysgu proffesiynol ychwanegol. Fodd bynnag, os bydd y diffygion yn parhau neu os bydd arolygwyr cymheiriaid yn torri disgwyliadau o ran arolygwyr, ni chânt eu defnyddio mewn arolygiadau pellach a bydd eu henwau’n cael eu tynnu oddi ar y rhestr.

**Iechyd a diogelwch**

28 Yn unol â deddfwriaeth ac arweiniad iechyd a diogelwch, mae Estyn yn gofyn bod yr ysgol / UCD sy’n cael ei harolygu wedi cynnal asesiadau risg iechyd a diogelwch trylwyr neu’n gallu gwirio bod asesiadau risg iechyd a diogelwch cyn arolygiad.

29 Caiff materion iechyd a diogelwch eu cynnwys yn y rhaglen hyfforddiant ar gyfer arolygwyr cymheiriaid.

**Treuliau**

30 Bydd Estyn yn ad-dalu treuliau teithio a chynhaliaeth rhesymol i arolygwyr cymheiriaid pan gânt eu defnyddio mewn arolygiadau, gan ddefnyddio'r cyfraddau canlynol:

| | |
|---|---|
| **Milltiredd Car** | **45c y filltir** |
| **Cinio (uchafswm)** | **Hyd at £9** |
| **Cinio a phryd bwyd gyda'r nos wedi'u cyfuno** | **Hyd at £36** |
| **Pryd bwyd gyda'r nos (aros dros nos os bydd dros 40 milltir o gartref)** | **Hyd at £27** |

**D.S. lle defnyddir cludiant cyhoeddus neu telir ffioedd parcio, atodwch dderbynebau i'r ffurflen hawlio er mwyn cael ad-daliad.**

31 Bydd Estyn yn cynnig llety i arolygydd cymheiriaid sy'n byw dros 40 milltir i ffwrdd o leoliad yr arolygiad. Ad-delir costau teithio i ddarpar arolygwyr cymheiriaid ar gyfer cyrsiau hyfforddiant ac asesu cychwynnol Estyn.

32 Ni fydd Estyn yn ad-dalu costau teithio a chynhaliaeth i arolygwyr cymheiriaid ar gyfer cyrsiau hyfforddiant diweddaru.

**Ariannu rhyddhau athrawon**

33 Bydd Estyn yn cyfrannu £150 y dydd ar gyfer rhyddhau athro am gyfnod ar gyfer arolygiadau ar y safle mewn ysgolion neu UCDau. Mae hyn yn cynnwys arolygwyr cymheiriaid sy'n ymuno fel aelod o'r tîm am ddiwrnod, er enghraifft i arolygu'r ddarpariaeth ADY. Nid yw Estyn yn talu costau staff cyflenwi ar gyfer cymryd rhan mewn cyrsiau hyfforddiant Estyn.

**Gwrthdaro buddiannau**

34 Ni fydd Estyn yn defnyddio arolygwyr cymheiriaid mewn arolygiadau ysgolion neu UCDau pan fydd buddiannau yn gwrthdaro. Bydd gwrthdaro yn cynnwys unrhyw gysylltiadau, perthynas neu wybodaeth flaenorol neu bresennol ynghylch ysgolion neu UCDau eraill ac unrhyw ddyletswyddau a gyflawnwyd fel dilyswyr allanol. Dylai arolygwyr cymheiriaid gyfeirio at y Polisi Gwrthdaro Buddiannau ar wefan Estyn a diweddaru eu proffil arolygydd gan roi manylion am unrhyw wrthdaro posibl, a hysbysu'r Cydlynydd Arolygu os byddant yn dod yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro yn ystod arolygiad.

## C Cyfrifoldebau arolygwyr cymheiriaid

**Mae arolygwyr cymheiriaid yn cytuno i'r canlynol:**

### Hyfforddiant

35 Mae'n ofynnol i arolygwyr cymheiriaid ymgymryd â rhaglen hyfforddi ac asesu gynhwysfawr, a fydd yn cynnwys:

- **Cyfarfod gweithgarwch cyn-cwrs**
  Cyn diwrnodau asesu wyneb yn wyneb, bydd arolygwyr naill ai'n mynychu cyfarfod ar-lein neu gyfarfod wyneb yn wyneb i ymgyfarwyddo â'r fframwaith arolygu.

- **Darllen a thasgau cyn-cwrs**
  Bydd darpar arolygwyr cymheiriaid yn ymgyfarwyddo â dogfennau allweddol Estyn, fel 'Sut rydym ni'n arolygu?' a 'Beth rydym yn ei arolygu?' naill ai ar gyfer ysgolion a gynhelir ac UCDau neu ysgolion annibynnol.

  **Dau ddiwrnod o fodiwlau hyfforddi ac asesiadau**

  Bydd arolygwyr yn cael asesiadau llafar ac ysgrifenedig, y gellir eu cynnal ar-lein neu wyneb yn wyneb.

- **Arolygiad(au) prawf**
  Fel arfer, mae'n rhaid i'r darpar arolygydd cymheiriaid gael gradd C neu'n uwch ar Ffurflen Gwerthuso Arolygydd (FfGA) gan yr Arolygydd Cofnodol ar ddiwedd yr arolygiad er mwyn cael ei ystyried ar gyfer cael ei ddefnyddio mewn arolygiadau pellach.

36 Ar gyfer yr holl weithgareddau wyneb yn wyneb, bydd Estyn yn darparu llety ac yn ad-dalu darpar arolygwyr cymheiriaid am deithio i gyrsiau hyfforddiant cychwynnol. Ni fydd Estyn yn talu am ryddhau athrawon i fod yn bresennol mewn cyrsiau hyfforddiant diweddaru.

37 Bydd cyrsiau hyfforddiant diweddaru blynyddol o ddiwrnod o leiaf yn cael eu cynnal ar gyfer pob arolygydd cymheiriaid. Gall y digwyddiadau hyn fod yn weithgareddau ar-lein neu'n weithgareddau wyneb yn wyneb. Mae mynychu'r digwyddiadau hyn yn orfodol. Disgwyliad Estyn yw y bydd arolygwyr cymheiriaid yn mynychu hyfforddiant diweddaru blynyddol. Fel arfer, ni fydd arolygwyr cymheiriaid sy'n methu hyfforddiant diweddaru blynyddol yn cael eu defnyddio yn ystod gweithgarwch arolygu. Ar ddechrau cylch arolygu newydd, mae mynychu hyfforddiant diweddaru yn orfodol cyn i arolygwyr cymheiriaid gael eu defnyddio mewn ysgolion neu UCDau.

**Defnyddio**

38 Rhaid bod arolygwyr cymheiriaid wedi cael gwiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) o fewn y tair blynedd diwethaf, o dan y categori Gweithlu Plant. Rhaid iddynt roi gwybod i Estyn am unrhyw wybodaeth berthnasol ynglŷn â'u cliriad gan y GDG. Dylai arolygwyr cymheiriaid gyfeirio at bolisi Estyn ar ddefnyddio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar wefan Estyn.

39 Mae arolygwyr cymheiriaid nid yn unig yn cael eu hyfforddi i ddeall y broses arolygu, mae disgwyl hefyd iddynt fynd ati i ymgymryd â gweithgareddau arolygu. Fel y dywedwyd yn flaenorol, os yw arolygydd cymheiriaid yn gwrthod cynnig i gael ei ddefnyddio deirgwaith yn olynol, mae Estyn fel arfer yn tynnu ei enw oddi ar y rhestr o arolygwyr cymheiriaid ac ni fydd yn cael gwahoddiad i fynychu unrhyw ddigwyddiadau hyfforddiant diweddaru pellach.

40 Cyn yr arolygiad, bydd angen i arolygwyr cymheiriaid fod yn gyfarwydd â phapur briffio'r tîm gan yr Arolygydd Cofnodol, sy'n amlinellu'r wybodaeth sylfaenol am drefn yr arolygiad. Yn gynnar yn ystod yr arolygiad, dylai arolygwyr cymheiriaid archwilio dogfennau allweddol fel y pennir gan yr Arolygydd Cofnodol.

41 Bydd y wybodaeth hon ar gael yn Ystafell Arolygu Rithwir (YAR) yr ysgol / UCD. Yn ogystal, bydd yr Arolygydd Cofnodol yn darparu'r wybodaeth hon ar ddechrau'r arolygiad. Nid yw'n ofynnol i arolygwyr cymheiriaid ymgymryd ag unrhyw weithgarwch arolygu, fel craffu ar ddogfennau'r ysgol / UCD cyn wythnos yr arolygiad.

**Gwerthuso**

42 Ar ddiwedd pob arolygiad, bydd yr Arolygydd Cofnodol / AEF yn asesu perfformiad yr arolygydd cymheiriaid, gan alluogi iddo / iddi gynnal hunanasesiad. Mae'r broses yn cynnwys gwerthusiad cyffredinol gan yr Arolygydd Cofnodol / AEF. Bydd manylion am weithdrefnau gwerthuso yn cael eu darparu yn ystod digwyddiad hyfforddiant cychwynnol a gellir dod o hyd iddynt ar wefan Estyn.

43 Os oes diffygion sylweddol yng ngwaith arolygydd cymheiriaid, bydd Estyn yn cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol ychwanegol ar gyfer cymorth. Fodd bynnag, bydd diffygion parhaus neu achosion o dorri disgwyliadau Estyn o arolygwyr yn arwain at beidio â defnyddio'r arolygydd cymheiriaid mewn arolygiadau pellach.

**Iechyd a diogelwch**

44 Bydd arolygwyr cymheiriaid yn dilyn yr arweiniad iechyd a diogelwch a ddarparwyd gan yr Arolygydd Cofnodol fel rhan o friff yr arolygiad. Rhaid iddynt sicrhau eu diogelwch eu hunain ac ystyried diogelwch pobl eraill sy'n gysylltiedig â'r arolygiad. Mae manylion pellach wedi'u cynnwys yn **Atodiad C**.

45 Disgwylir i arolygwyr cymheiriaid gymryd cyfrifoldeb am eu diogelwch eu hunain, parchu diogelwch pobl eraill a chydweithredu'n llawn â'r gweithdrefnau iechyd a diogelwch sydd ar waith. Mae manylion pellach wedi'u cynnwys yn **Atodiad B**.

## Rôl arolygwyr cymheiriaid

46 Bydd arolygwyr cymheiriaid yn gweithio ochr yn ochr â'r Arolygydd Cofnodol sy'n cynnal yr arolygiad penodol, ac o dan ei arweiniad.

47 Caiff dyletswyddau arolygwyr cymheiriaid eu rhestru yn **Atodiad B** y Protocol a'r Arweiniad ar gyfer arolygwyr cymheiriaid.

48 Bydd yr Arolygydd Cofnodol yn pennu tasgau penodol i arolygwyr cymheiriaid ar ddechrau'r arolygiad, a allai gynnwys gweithio ar fwy nag un safle yn achos ysgolion ffederal.

## Gofynion meddalwedd yr YAR

49 Bydd yn ofynnol i arolygwyr cymheiriaid ddod â gliniadur at eu defnydd eu hunain yn ystod y cyfnod arolygu ac arno:

- Microsoft Word 2019 (neu ddiweddarach)
- cysylltiad â'r rhyngrwyd (rhaid bod eich gliniadur wedi'i alluogi ar gyfer WiFi, neu rhaid i chi drefnu'ch dull eich hun o gysylltu â'r rhyngrwyd)
- system weithredu Windows (10 neu uwch)
- porwr rhyngrwyd (Edge, Chrome neu Firefox)

**Sylwch: i ddefnyddio system dempledi'r Ffurflenni Barnau ar yr YAR, bydd arnoch angen fersiwn lawn o MS Word 2019 (neu ddiweddarach)**

50 Mae system yr YAR wedi'i dylunio ar gyfer platfformau Microsoft, sy'n creu heriau posibl i ddefnyddwyr Apple Mac sy'n ceisio defnyddio nodwedd 'PC emulation'. Mae llechi, gan gynnwys iPads, yn anghydnaws ar hyn o bryd.

51 Bydd arolygwyr cymheiriaid yn darparu copi electronig o ffurflen farnau sy'n cynnwys eu canfyddiadau arolygu a'r dystiolaeth ategol. Rhaid darparu'r ffurflen hon gan ddefnyddio Microsoft Word 2019 (neu ddiweddarach) a defnyddio'r templed a ddarperir yn yr Ystafell Arolygu Rithwir ar ddechrau'r arolygiad. Mae'r holl wybodaeth a thystiolaeth yn eiddo bob amser i Estyn.

52 Mae'n rhaid i arolygwyr cymheiriaid gadw at Bolisi Sicrwydd Gwybodaeth Estyn, sydd ar gael ar y wefan.

## Diogelu

53 Bydd arolygwyr cymheiriaid yn ymgyfarwyddo â pholisi Diogelu Estyn, ac yn cadw ato, mewn arolygiad.

## Disgwyliadau o ran arolygwyr

54 Bydd arolygwyr cymheiriaid yn gweithio yn unol â'r disgwyliadau o ran arolygwyr, a byddant:

- yn gwrtais ac yn broffesiynol
- yn sefydlu ac yn cynnal ffiniau proffesiynol priodol wrth siarad â phlant ac oedolion
- yn gwneud eu gwaith ag uniondeb, parch a sensitifrwydd priodol
- yn cymryd yr holl gamau rhesymol i atal gorbryder diangen a lleihau straen i'r eithaf yn ystod gweithgarwch arolygu
- yn gwerthuso gwaith y darparwr yn wrthrychol gan ddefnyddio tystiolaeth glir a chadarn
- yn adrodd yn onest, yn deg ac yn ddiduedd heb ofni na ffafrio
- yn cyfathrebu'n glir ac yn agored
- yn gweithredu er lles y dysgwyr
- yn parchu cyfrinachedd yr holl wybodaeth sy'n dod i law yn ystod eu gwaith
- yn ymateb yn briodol i geisiadau rhesymol

55 Mae'n bwysig ein bod yn gwerthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth ar sail eu heffaith ac nid ar sail unrhyw ffafriaethau am ddulliau penodol. Yr hyn sy'n allweddol i'n gwerthusiadau yw p'un a yw'r dulliau a'r drefniadaeth yn addas at y diben o ran cefnogi pob un o'r disgyblion i gyflawni safonau uchel a lefelau lles cryf.

## Gwrthdaro buddiannau

56 Rhaid i arolygwyr cymheiriaid ddatgelu a rhannu unrhyw fuddiannau personol neu broffesiynol posibl sy'n gwrthdaro yn gysylltiedig ag ysgolion neu UCDau eraill cyn cymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddi. Bydd y gwrthdaro hwn yn cynnwys unrhyw gysylltiadau, perthynas neu wybodaeth flaenorol neu bresennol am ysgolion neu UCDau eraill ac unrhyw ddyletswyddau y gwnaethant ymgymryd â nhw fel dilyswyr allanol. Yn ychwanegol, mae'n rhaid i arolygwyr cymheiriaid roi gwybod i Estyn am unrhyw newid i'w statws cyn gynted ag y bydd yn digwydd.

57 Ni fydd arolygydd cymheiriaid yn cael ei ddefnyddio mewn ysgol / UCD y mae wedi'i eithrio ohoni o fewn cyfnod tair blynedd. Fodd bynnag, gellid ymestyn y cyfnod hwn am ddwy flynedd arall yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Os oes gan arolygydd cymheiriaid unrhyw amheuaeth neu mae'n nodi unrhyw amgyffrediad o wrthdaro buddiannau, rhaid iddo roi gwybod i Estyn ar unwaith.

## Atodiad A: Cymhwyster ar gyfer rôl yr arolygydd cymheiriaid

**Rhaid i arolygwyr cymheiriaid fodloni pob un o'r gofynion canlynol. Rhaid iddynt:**

- fod yn gyflogedig mewn ysgol neu UCD yng Nghymru ar hyn o bryd
- cael profiad mewn swydd barhaol fel uwch arweinydd yng Nghymru gyda chyfrifoldeb sylweddol am ysgol gyfan / UCD
- o leiaf 5 mlynedd o brofiad fel athro effeithiol yng Nghymru
- cymeriad da a'r gallu i weithio'n ddiogel
- meddu ar wybodaeth gyfredol (yn berthnasol i'r sector dan sylw)

Ar gyfer ysgolion ac UCDau, **rhaid** i arolygwyr cymheiriaid:

- gael eu cyflogi ar y raddfa gyflog uwch arweinyddiaeth – byddai pennaeth, dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol mewn ysgol gynradd a gynhelir neu ysgol arbennig yn ymgymryd â'r rôl hon neu rôl gyfwerth mewn ysgol annibynnol; neu
- fod yn bennaeth, dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol mewn ysgol uwchradd; neu
- fod yn athro â gofal am uned cyfeirio disgyblion yng Nghymru

### Dylai arolygwyr cymheiriaid feddu ar y canlynol:

- gonestrwydd, uniondeb a phriodoldeb
- medrau cyfathrebu effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig
- medrau TGCh hyfedr
- meddwl a chasglu meddyliau ynghyd yn rhesymegol
- ystyried tystiolaeth yn ofalus
- crebwyll cadarn
- gallu i esbonio ac amddiffyn gwerthusiadau
- medrau gwaith tîm
- hyblygrwydd a pharodrwydd i addasu
- ymrwymo i gynnal cyfrinachedd llwyr

### Gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg

I arolygu ysgolion neu UCDau Cymraeg a dwyieithog, rhaid i arolygwyr cymheiriaid lwyddo ym mhob agwedd ar y cwrs hyfforddiant cychwynnol mewn Cymraeg ysgrifenedig a llafar.

Bydd y rhai sy'n bodloni'r gofynion hyn yn gymwys i gael eu defnyddio mewn arolygiadau naill ai mewn ysgolion neu UCDau Cymraeg, dwyieithog neu Saesneg.

**Ysgolion a gynhelir ac UCDau – dod yn Arolygydd Ychwanegol i Estyn**

Gall arolygwyr cymheiriaid profiadol sydd wedi cwblhau tri arolygiad neu fwy yn llwyddiannus wneud cais i drosglwyddo i rôl Arolygydd Ychwanegol i Estyn wedi iddynt adael swydd mewn darparwr addysg yng Nghymru. Dylent hysbysu Estyn pan fydd eu statws cyflogaeth yn newid, ac os ydynt yn dymuno cael eu hystyried ar gyfer rôl Arolygydd Ychwanegol. Bydd y penodiad yn cael ei wneud yn ôl disgresiwn Cyfarwyddwr Cynorthwyol perthnasol Estyn.

**Ysgolion a gynhelir ac UCDau – dod yn Arolygydd Cofrestredig i Estyn**

Mae arolygwyr cymheiriaid profiadol sydd wedi ymgymryd â thri arolygiad neu fwy ac wedi cael graddau A/B ar eu FfGA yn gymwys i wneud cais ar gyfer rôl arolygydd cofrestredig arweiniol. I ddod yn arolygydd cofrestredig, rhaid iddynt gwblhau cwrs hyfforddiant asesedig ac arolygiad yn llwyddiannus; gellir cael manylion am sut i wneud cais ar wefan Estyn o dan swyddi gwag cyfredol. Gall arolygwyr cymheiriaid sydd hefyd yn arolygwyr cofrestredig hyfforddedig barhau i gael eu defnyddio fel arolygydd cymheiriaid yn ystod arolygiadau Estyn tra byddant yn parhau i gael eu cyflogi gan eu hysgol. Fodd bynnag, ar ôl gadael eu hysgol, ni allant weithio fel arolygydd cymheiriaid mwyach, oni bai eu bod yn symud i ysgol arall. Fodd bynnag, gallant barhau i elwa ar gyfleoedd i weithio fel arolygwyr cofrestredig.

## Atodiad B: Protocol ac arweiniad ar gyfer arolygwyr cymheiriaid

### Egwyddorion cyffredinol

Daw arolygwyr cymheiriaid â safbwynt ymarferwr presennol i arolygiad. Y nod yw i bob tîm arolygu gynnwys arolygydd cymheiriaid. Mae arolygydd cymheiriaid yn aelod llawn o'r tîm a bydd ganddo'r un ystod a math o gyfrifoldebau ag aelodau eraill o'r tîm.

Gallai tasgau arolygwyr cymheiriaid gynnwys:

- arsylwi sesiynau a gweithgareddau eraill
- gwrando ar ddysgwyr
- craffu ar samplau o waith
- cymryd rhan mewn trafodaethau â staff a phobl eraill
- archwilio dogfennau
- gwerthuso effaith polisïau, cynlluniau a gweithdrefnau'r darparwr
- arwain ar faes arolygu neu agwedd ar arolygu

Bydd arolygwyr cymheiriaid yn ymweld â dosbarthiadau ac yn ymgymryd â theithiau dysgu a gweithgareddau arolygu eraill yn yr un modd ag aelodau eraill o'r tîm a byddant yn cyfrannu at werthusiad y tîm ar bob agwedd sy'n cael ei harolygu. Yn yr un modd ag aelodau eraill o'r tîm, mae'n ofynnol i arolygydd cymheiriaid gyflwyno'r dystiolaeth a'r barnau gofynnol ar y ffurflen mewnbwn tîm a ddarperir yn yr YAR, cyn gadael yr ysgol / UCD ar ddiwedd arolygiad.

Yn bennaf, bydd arolygwyr cymheiriaid yn uwch arweinwyr mewn ysgolion neu UCDau yng Nghymru gydag o leiaf 2 flynedd o brofiad yn y swydd hon, yn ogystal ag o leiaf bum mlynedd o brofiad addysgu. Hefyd, byddant yn gyfarwydd â datblygiadau parhaus a diwygio addysg yng Nghymru.

### Mae cyfranogiad arolygwyr cymheiriaid mewn arolygiadau:

- yn cyfrannu at arbenigedd timau arolygu ac yn ymestyn rhan ysgolion yn y broses arolygu
- yn hybu dealltwriaeth ysgolion / UCDau o arolygu
- yn galluogi rhannu arfer dda a rhagorol
- yn helpu i ddatblygu'r medrau sydd eu hangen ar ysgolion / UCDau i ymgymryd â hunanwerthuso yn effeithiol
- yn galluogi unigolion i gael mewnwelediad gwell ar y broses arolygu yn ogystal â darparu cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer eu datblygiad proffesiynol eu hunain

## Cyfrifoldebau arolygwyr cymheiriaid

**Disgwylir i arolygwyr cymheiriaid:**

- ddeall arweiniad y sector ar gyfer arolygiadau ysgolion / UCDau
- glynu at y cod ymddygiad ar gyfer arolygwyr
- bod yn gyfarwydd â'r protocol a'r arweiniad ar gyfer eu rôl
- darllen y nodyn briffio cyn-arolygiad a dogfennau perthnasol eraill
- cwblhau dogfennau arolygu, gan gynnwys ffurflenni electronig
- cymryd rhan yng nghyfarfodydd y tîm arolygu
- arwain ar feysydd arolygu a bennwyd gan yr Arolygydd Cofnodol
- drafftio adrannau o'r adroddiad, yn unol â chyfarwyddyd
- mynychu cyfarfodydd adborth gyda'r ysgol / UCD yn ystod wythnos yr arolygiad
- cynnal cyfrinachedd y wybodaeth am yr arolygiad
- cymhwyso a dilyn gweithdrefnau diogelu Estyn bob amser

**Nid yw'n ofynnol i arolygwyr cymheiriaid:**

- fynychu cyfarfodydd cyn yr arolygiad
- mynychu cyfarfodydd ar ôl yr arolygiad ar y safle
- adolygu tystiolaeth ychwanegol ar ôl yr arolygiad ar y safle

**Mae arolygwyr cofnodol yn gyfrifol am:**

- gysylltu ag arolygwyr cymheiriaid
- egluro rolau arolygwyr cymheiriaid
- sicrhau bod arolygwyr cymheiriaid yn gallu mynd at ddogfennau perthnasol trwy'r YAR
- hysbysu'r darparwr am rolau arolygwyr cymheiriaid
- cynllunio tasgau arolygwyr cymheiriaid yn ystod yr arolygiad ar y safle
- integreiddio arolygwyr cymheiriaid yn llawn yn y tîm
- sicrhau bod arolygwyr cymheiriaid yn cael briff ar drefniadau cyfarfodydd ac arolygu
- sicrhau ansawdd gwaith arolygwyr cymheiriaid
- darparu adborth ar berfformiad arolygwyr cymheiriaid
- sicrhau bod arolygwyr cymheiriaid yn glynu at werthoedd craidd a pholisïau Estyn, yn cynnwys iechyd a diogelwch, a bwlio

## Gweithgareddau yn y broses arolygu

### Cyn yr arolygiad

| | |
|---|---|
| **Yr arolygydd cymheiriaid** | ➢ ymgyfarwyddo ag arweiniad y sector<br>➢ ymgyfarwyddo â'r protocol a'r arweiniad hwn ar rôl yr arolygydd cymheiriaid<br>➢ derbyn cyfarwyddiadau ar gyfer mynd i mewn i'r Ystafell Arolygu Rithwir (YAR) i allu cael at yr holl ddogfennau angenrheidiol |
| **Yr Arolygydd Cofnodol** | ➢ cael enw a gwybodaeth gefndir am yr arolygydd cymheiriaid trwy'r YAR a'r system Proffiliau Arolygwyr a neilltuo rolau a chyfrifoldebau i'r arolygydd cymheiriaid<br>➢ cadarnhau gyda'r arolygydd cymheiriaid fod y cydlynydd arolygu wedi trefnu iddo/iddi allu mynd at yr YAR cyn dechrau'r arolygiad |

### Yn ystod yr arolygiad a chyn gadael yr ysgol / UCD

| | |
|---|---|
| **Yr arolygydd cymheiriaid** | ➢ cynorthwyo'r Arolygydd Cofnodol trwy gydol arolygiadau<br>➢ cymryd rhan mewn cyfarfodydd tîm<br>➢ gwerthuso gwaith disgyblion<br>➢ cynnal arsylwadau dosbarth a gweithgareddau dysgu<br>➢ gwrando ar fyfyrwyr<br>➢ cwblhau dogfennau angenrheidiol<br>➢ cynnal trafodaethau proffesiynol gydag athrawon ar ôl arsylwi gwersi<br>➢ cyfrannu at nodi cryfderau'r darparwr a'i feysydd i'w gwella<br>➢ cyfrannu at gasglu tystiolaeth ynghyd ar gyfer yr adroddiad<br>➢ sicrhau bod yr Arolygydd Cofnodol yn cael pob dogfen angenrheidiol<br>➢ mynychu cyfarfodydd adborth a rhoi cymorth yn ôl yr angen<br>➢ dychwelyd holl ddogfennau'r arolygiad yn brydlon<br>➢ ar gyfer arolygwyr cymheiriaid ysgolion annibynnol – gwerthuso cydymffurfio yn erbyn Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024 |
| **Yr Arolygydd Cofnodol** | ➢ goruchwylio gwaith yr arolygydd cymheiriaid a chynnig cymorth pan fydd angen<br>➢ sicrhau cyfranogiad gweithredol yr arolygydd cymheiriaid yn yr arolygiad<br>➢ hwyluso cyfraniad yr arolygydd cymheiriaid at asesiadau corfforaethol |

**Ar ôl yr arolygiad**

| | |
|---|---|
| **Yr arolygydd cymheiriaid** | ➢ adolygu'r Ffurflen Gwerthuso Arolygydd (FfGA) drwy'r YAR |
| **Yr Arolygydd Cofnodol** | ➢ rhoi adborth i'r arolygydd cymheiriaid am ansawdd ei waith yn ystod yr arolygiad a llenwi'r ffurflen gwerthuso arolygydd (FfGA) yn yr YAR. |

Dylai adborth yr Arolygydd Cofnodol i arolygwyr cymheiriaid ymwneud â chael tystiolaeth, llunio barnau, cyfathrebu ac ymddygiad.

**Defnyddio arolygwyr cymheiriaid**

Bydd arolygwyr cymheiriaid:

- yn cael eu defnyddio mewn ysgolion / UCDau sy'n gwasanaethu disgyblion o'r un ystod oedran â'u hysgol / UCD eu hunain
- yn cael eu defnyddio mewn ysgol / UCD lle nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau personol na phroffesiynol
- ni fydd arolygwyr cymheiriaid yn cael eu defnyddio os yw eu cyflogwr / ysgol / UCD mewn categori gweithgarwch dilynol statudol
- mewn ysgolion annibynnol, ni fyddant yn cael eu defnyddio os nad yw eu hysgol yn cydymffurfio ag ISSR

Bydd Estyn yn gwneud pob ymdrech i ddefnyddio arolygwyr cymheiriaid mewn arolygiad, ond ni all roi unrhyw sicrwydd o hynny.

**Hyfforddiant**

Amcanion digwyddiadau hyfforddiant arolygwyr cymheiriaid a hyfforddiant diweddaru blynyddol yw galluogi darpar arolygwyr cymheiriaid i ddeall y broses arolygu, yr egwyddorion sy'n sylfaen i'r broses a'r meini prawf ar gyfer gwerthusiadau.

**Ni** fydd darpar arolygwyr cymheiriaid yn gymwys i gymryd rhan yn y cwrs hyfforddiant asesedig cychwynnol er mwyn cymhwyso'n arolygydd cymheiriaid os yw eu cyflogwr / ysgol / UCD mewn categori gweithgarwch dilynol statudol ar hyn o bryd.

**Gwerthuso**

Bydd Estyn yn monitro gwaith arolygwyr cymheiriaid. Bydd copi o'r ffurflen gwerthuso arolygydd (FfGA) wedi'i llenwi ar gael i arolygwyr cymheiriaid drwy eu proffil arolygydd.

## Atodiad C:  Iechyd a diogelwch y tîm arolygu

Mae gan bob arolygydd ac arolygydd cymheiriaid gyfrifoldeb i wneud yn siŵr bod eu harferion gweithio trwy gydol yr arolygiad yn cyd-fynd â rheoliadau iechyd a diogelwch.

Mae'r Arolygydd Cofnodol yn sicrhau bod y darparwr yn hysbysu'r tîm arolygu am eu protocolau iechyd a diogelwch, yn cynnwys gweithdrefnau gadael mewn argyfwng a rhagofalon mewn ardaloedd risg uchel. Ni fydd unrhyw weithgareddau arolygu'n dechrau heb friff priodol ar iechyd a diogelwch.

Nid yw arolygwyr ac arolygwyr cymheiriaid yn gyfrifol am arolygu p'un a yw darparwyr yn cydymffurfio â rheoliadau iechyd a diogelwch; caiff hyn ei archwilio gan awdurdodau eraill. Fodd bynnag, os byddwn yn nodi pryder cymhleth neu ddifrifol ynghylch rheoli neu ddiogelu ar y safle tra'n ymweld â darparwr, rydym yn dilyn gweithdrefnau a amlinellir yn ein harweiniad ar ddiogelu ar gyfer arolygu.

Dylai pob arolygydd gofnodi cyswllt mewn argyfwng ar eu Proffil Arolygydd unigol, a fydd ar gael i'r Arolygydd Cofnodol os bydd argyfwng.

Gallai arolygwyr cymheiriaid yrru i safleoedd amrywiol darparwyr, neu i leoliadau hyfforddiant. Rhaid iddynt sicrhau bod y cerbyd yn addas i'r ffordd fawr, wedi'i yswirio a bod modd cael cymorth os yw'r car yn torri i lawr. Dylai'r rhai nad ydynt yn gyrru neu fod yn well ganddynt beidio â gyrru yn ystod arolygiadau hysbysu'r Arolygydd Cofnodol ymlaen llaw.